WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Ansawdd Data

## Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan

**Blwyddyn archwilio:** 2010-11

**Cyhoeddwyd:** Ebrill 2012

**Cyfeirnod y ddogfen:** 220A2012

# Statws yr adroddiad

Aelodau'r tîm a ymgymerodd â'r gwaith oedd Gareth Lewis, Paul Cunningham a Malcolm Latham.

Paratowyd y ddogfen hon i'w defnyddio'n fewnol ym Mwrdd Iechyd Aneurin Bevan fel rhan o waith a wnaed yn unol â swyddogaethau statudol, y Cod Ymarfer Archwilio a'r Datganiad o Gyfrifoldebau a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Nid yw Swyddfa Archwilio Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol a'i staff) yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall unigol, nac am unrhyw drydydd parti.

Os derbynnir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r Cod yn adran 45 yn amlinellu'r drefn y disgwylir i awdurdodau cyhoeddus ei dilyn wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (a, phan fo'n berthnasol, ei archwilydd penodedig) yn drydydd parti perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn infoofficer@wao.gov.uk.

# Cynnwys

Yn gyffredinol, mae'r Bwrdd Iechyd yn dangos safon dda o ansawdd data; fodd bynnag, gallai trefniadau llywodraethu cymhleth fod yn rhwystr posibl i wella.


| | |
|---|---|
| **Adroddiad Cryno** | |
| Crynodeb ac argymhellion | 4 |
| **Adroddiad Manwl** | |
| Mae'r strwythurau llywodraethu ansawdd data yn rhy gymhleth ar hyn o bryd ac mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n adolygu'r trefniadau hyn | 6 |
| Mae'r rhaglenni a'r prosesau ansawdd data yn briodol, ond gallai'r Bwrdd Iechyd gryfhau'r rhain ymhellach er mwyn sicrhau bod trefniadau ansawdd data da yn cael eu cynnal a'u hymsefydlu | 9 |
| Mae ein dadansoddiad o ddata yn amlygu safon uchel o ansawdd data, sy'n dangos bod trefniadau'r Bwrdd Iechyd yn effeithiol at ei gilydd | 11 |
| **Atodiadau** | |
| Canlyniadau dadansoddiad o ddata demograffig cleifion | 15 |

# Crynodeb

**1.** Mae'r GIG yng Nghymru yn defnyddio gwybodaeth fel rhan annatod o'i ddull o ddarparu gwasanaethau iechyd. Yn weithredol, mae cyrff y GIG yn dibynnu'n drwm ar systemau gwybodaeth electronig i gefnogi ystod o weithgareddau allweddol, gan gynnwys:

- gweinyddu, llunio amserlenni a neilltuo lle ar gyfer cleifion;
- prosesau diagnostig, trefnu profion, gofyn am ganlyniadau ac edrych arnynt;
- cyfuno llwybrau gofal sylfaenol ac eilaidd, rhannu gwybodaeth bwysig am gleifion a allai achub bywydau;
- rheolaeth ariannol effeithiol a darparu modd i allu rheoli cynhyrchedd;
- nodi anghenion cleifion a demograffig, fel y gellir teilwra gwasanaethau a'u canolbwyntio mewn meysydd a fydd yn cyflawni'r budd mwyaf; a
- nodi a chyflawni canlyniadau clinigol a busnes.

**2.** Mae'r wybodaeth a ddefnyddir i gefnogi prosesau rheoli a darparu gofal iechyd yn ddibynadwy dim ond os yw ansawdd y data sy'n sail iddi'n gadarn. Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn nodi chwe elfen graidd sy'n effeithio ar ansawdd data, sef amseroldeb, cyflawnder, dilysrwydd, cysondeb, manylrwydd a chywirdeb. Ni fydd bob amser yn bosibl sicrhau bod data 100 y cant yn gywir, 100 y cant o'r amser, ond mae'n hollbwysig bod gan gyrff iechyd drefniadau priodol ac effeithiol wedi'u sefydlu ar gyfer ansawdd data er mwyn lleihau cymaint â phosibl ar risgiau clinigol, cefnogi cyflenwi gweithredol a rheoli effeithiol, ac i fod yn sail i brosesau rheoli perfformiad a sicrwydd y Bwrdd Iechyd.

**3.** Yn 2008, cynhaliodd y Rhaglen Gwybodaeth Iechyd Corfforaethol adolygiad ar draws Ymddiriedolaethau blaenorol y GIG i asesu'r trefniadau ansawdd data. Amlygodd yr adroddiad ystod o arferion amrywiol, a gwnaeth nifer o argymhellion i wella'r trefniadau. Roedd y Llythyr Gweinidogol (EH/ML/007/08) a gyhoeddwyd ym mis Medi 2008 yn cynnwys argymhellion ffurfiol ar gyfer pob Ymddiriedolaeth y GIG a Bwrdd Iechyd Lleol. Mae gwaith y Rhaglen Gwybodaeth Iechyd Corfforaethol bellach yn ffurfio rhan o Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Er nad yw Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru wedi gwneud gwaith dilynol ffurfiol ar yr adroddiad gwreiddiol, maent yn parhau i gydgysylltu a monitro dilysrwydd data allweddol.

**4.** Fel rhan o'i gwaith i adolygu trefniadau cyrff y GIG ar gyfer sicrhau defnydd effeithlon, effeithiol a darbodus o adnoddau, mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi archwilio'r trefniadau ansawdd data ym Mwrdd Iechyd Aneurin Bevan (y Bwrdd Iechyd). Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cynllunio'r adolygiad hwn gyda chyfraniad gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru ac rydym yn cynnal yr adolygiad ym mhob Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth y GIG yng Nghymru.

**5.** Er nad yw'r adolygiad hwn yn dilyn ymlaen yn uniongyrchol o argymhellion Gweinidogol 2008, rydym wedi ceisio cynnwys pob un o'r meysydd hyn yn ein gwaith adolygu. Felly, mae'r archwiliad wedi edrych ar:

- drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd yn ymwneud ag ansawdd data;
- trefniadau gweithredol ansawdd data, gan gynnwys cyfrifoldebau, prosesau, gweithdrefnau, polisi a dulliau lleol ar gyfer monitro'n fewnol ac adrodd ar effeithiolrwydd prosesau ansawdd data; a
- pherfformiad ansawdd data.

6. Wrth ymgymryd â'r gwaith, rydym wedi adolygu dogfennau ac adroddiadau perthnasol allweddol, ac wedi cynnal cyfres o gyfweliadau gydag ystod o aelodau staff. Rydym hefyd wedi cynnal ymarfer dadansoddi data er mwyn nodi i ba raddau y dyblygir cofnodion cleifion o fewn a rhwng y brif System Gweinyddu Cleifion a'r System Gwybodaeth Radioleg, fel dangosydd o effeithiolrwydd y trefniadau ansawdd data. Mae'r adolygiad hwn wedi canolbwyntio ar drefniadau ansawdd data ar gyfer data'r Bwrdd Iechyd ei hun, ac felly nid yw'n ystyried trefniadau ansawdd data ar gyfer setiau data gofal sylfaenol.

7. Diben yr adolygiad hwn oedd nodi pa un a oes gan y Bwrdd Iechyd drefniadau effeithiol o ran ansawdd data.

8. Rydym wedi dod i'r casgliad bod y Bwrdd Iechyd yn dangos safon dda o ansawdd data; fodd bynnag, gallai trefniadau llywodraethu cymhleth fod yn rhwystr posibl i wella.

9. Deuthum i'r casgliad hwn oherwydd:
   - bod y strwythurau llywodraethu ansawdd data yn rhy gymhleth ar hyn o bryd a bod y Bwrdd Iechyd wrthi'n adolygu'r trefniadau hyn;
   - bod y rhaglenni a'r prosesau ansawdd data yn briodol, ond gallai'r Bwrdd Iechyd gryfhau'r rhain ymhellach er mwyn sicrhau bod trefniadau ansawdd data da yn cael eu cynnal a'u hymsefydlu; a
   - bod ein dadansoddiad o ddata yn amlygu safon uchel o ansawdd data, sy'n dangos bod trefniadau'r Bwrdd Iechyd yn effeithiol at ei gilydd.

# Argymhellion

10. Er mwyn helpu'r Bwrdd i symud ymlaen, rydym wedi darparu'r argymhellion canlynol.

**Sicrhau ansawdd data**

| | |
|---|---|
| R1 | Rhoi sicrwydd ar lefel sefydliadol trwy gyflwyno adroddiad blynyddol ar ansawdd data sy'n ymdrin â'r trefniadau sydd wedi'u sefydlu i sicrhau ansawdd data, ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny. |
| R2 | Sicrhau bod trefniadau llywodraethu gwybodaeth yn effeithlon, yn effeithiol ac yn cynnwys ansawdd data'n briodol ar yr agenda. |

**Proses ansawdd data**

| | |
|---|---|
| R3 | Sicrhau bod y Polisi Ansawdd Data yn cael ei ddiweddaru:<br>• dylai cwmpas y polisi ymdrin â phob agwedd ar y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys gofal sylfaenol;<br>• dylai'r polisi nodi'r holl bwyllgorau perthnasol ac adlewyrchu eu cylch gorchwyl; a<br>• dylai swyddogaethau a chyfrifoldebau adlewyrchu'r trefniadau presennol gwirioneddol. |
| R4 | Cynnwys ansawdd data yn y broses sefydlu neu'r hyfforddiant ar gyfer pob aelod newydd o staff sy'n gyfrifol am fewnbynnu, dadansoddi neu ddiwygio data clinigol a busnes. Darparu hyfforddiant diweddaru sgiliau o ran ansawdd data fel bo'r angen. |


# Adroddiad Manwl

## Mae'r strwythurau llywodraethu ansawdd data yn rhy gymhleth ar hyn o bryd ac mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n adolygu'r trefniadau hyn

### Mae strwythur y trefniadau llywodraethu presennol yn gymhleth ac ni cheir dull eglur o ddarparu sicrwydd ar faterion ansawdd data, er bod y materion hyn yn debygol o dderbyn sylw yn rhan o'r adolygiad presennol

**11.** Mae angen llinell atebolrwydd eglur er mwyn sicrhau y gwneir penderfyniadau effeithiol ac er mwyn i'r Bwrdd Iechyd gyflawni ei ofynion sicrwydd yn briodol. Gall y Bwrdd Iechyd gyflawni hyn trwy strwythur grŵp llywodraethu a rheoli a gynlluniwyd yn dda. Mae Ffigur 1 yn dangos strwythur Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth y Bwrdd Iechyd.

**Ffigur 1: Strwythur adrodd am ansawdd data i'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth**



12. Mae gan y pwyllgorau a'r grwpiau hyn gylch gorchwyl priodol ac maent yn cynnwys agweddau allweddol sy'n effeithio ar ansawdd data. Fodd bynnag, mae'r pwyllgorau hyn yn defnyddio llawer o adnoddau, gyda 15 i 20 o aelodau ym mhob un. Yn ogystal â'r ffaith eu bod yn fawr, gall hyd at bum aelod o'r prif Bwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth fod yn bresennol mewn cyfarfodydd is-bwyllgor hefyd.

13. Amlygodd cyfweliadau ddiffyg eglurder ynglŷn ag union swyddogaeth y Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth. Ceir gwahanol safbwyntiau yn y Bwrdd Iechyd ynglŷn â'r hyn a ddylai fod yn rhan o'i gylch gorchwyl a pha un a oes ganddo gylch gorchwyl i adolygu agweddau ar berfformiad yn rhan o'i agenda. Ceir diffyg eglurder ynglŷn â chyfrifoldebau strategol a gweithredol y strwythur adrodd i'r pwyllgor hefyd. Mae angen diffinio'r gwahaniaeth rhwng y cyfrifoldebau hyn yn well o fewn y strwythur.

14. Mae Polisi Rheoli Ansawdd Data y Bwrdd Iechyd yn amlinellu swyddogaethau'r Pwyllgorau (o ran ansawdd data) fel a ganlyn:

- Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth yn datblygu a chytuno ar bolisïau a phrosesau ar gyfer casglu, storio a lledaenu gwybodaeth. Mae'r Pwyllgor yn cyfarwyddo a monitro ymagwedd y Bwrdd Iechyd at Lywodraethu Gwybodaeth er mwyn bodloni cynlluniau, safonau a deddfwriaeth lleol a chenedlaethol.
- Mae'r Grŵp Datblygu Gwybodaeth yn nodi'r angen am wybodaeth glinigol a busnes ar draws y sefydliad ac yn datblygu systemau a phrosesau i fodloni'r angen hwn. Mae ei agenda'n cyfarwyddo'r rhaglen waith ansawdd data a gwaith y Grŵp Ansawdd Data.
- Mae'r Grŵp Ansawdd Data yn adrodd i'r Grŵp Datblygu Gwybodaeth.
  Mae'r Grŵp hwn yn gweithredu fel y corff gorfodi ar gyfer y Polisi Ansawdd Data ac mae'n monitro ac adrodd ar berfformiad yn unol â safonau ac yn gwella prosesau ansawdd data.
- Grŵp gweithredol yw'r Grŵp Rheoli Cofnodion Iechyd sy'n codi ymwybyddiaeth o ansawdd data ymhlith staff cofnodion iechyd. Mae'r grŵp hwn yn derbyn canlyniadau archwiliadau ansawdd data gorfodol, sy'n helpu i amlygu anghenion hyfforddiant.

15. Fodd bynnag, ni chrybwyllir y Pwyllgor Cofnodion Iechyd yn y polisi ansawdd data. Mae'r Pwyllgor hwn wedi'i leoli rhwng y Grŵp Rheoli Cofnodion Iechyd a'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth, a dylai'r polisi adlewyrchu swyddogaeth y Pwyllgor.

16. Nid yw'r Polisi Rheoli Ansawdd Data yn nodi sut y bydd y Grŵp Datblygu Gwybodaeth yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth am ansawdd data'r Bwrdd Iechyd. Er bod gwybodaeth am ansawdd data'n cael ei hadrodd i'r is-bwyllgorau a'r grwpiau perthnasol fel mater o drefn, ni pharatoir adroddiad blynyddol ar sicrwydd ansawdd data. Yn 2008, argymhellodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol blaenorol y dylai Byrddau Iechyd gomisiynu adroddiad blynyddol ffurfiol ar ansawdd data er mwyn sicrhau pwyslais ar welliant parhaus.

17. Deallwn fod y Bwrdd Iechyd yn cynnal adolygiad o'i strwythur adrodd am ansawdd data a'r pwyllgorau cysylltiedig. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod yr adolygiad yn ystyried y materion a godwyd yn yr adroddiad hwn, ac yn gweithredu arnynt.
Dylai'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth dderbyn diweddariadau rheolaidd ar effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer is-bwyllgorau a grwpiau tan ei fod yn hyderus eu bod wedi'u hymsefydlu'n gadarn.

## Er bod uwch reolwyr yn dangos ymrwymiad i wella ansawdd data ac wedi parhau i fuddsoddi mewn ansawdd data, nid yw'r ffaith bod y grŵp ansawdd data wedi'i israddio yn ddiweddar yn adlewyrchu'r ymrwymiad hwn

**18.** Mae'r Polisi Rheoli Ansawdd Data yn datgan mai'r Cyfarwyddwr Meddygol yw'r uwch reolwr sy'n gyfrifol am ansawdd data. Fodd bynnag, trwy gyfweliadau, canfuom mai'r Cyfarwyddwr Perfformiad a Gwella sy'n gyfrifol am hyn mewn gwirionedd. Dylai'r Bwrdd Iechyd ddiwygio'r Polisi i adlewyrchu'r cyfrifoldebau presennol. Bydd angen i'r Bwrdd Iechyd ledaenu gwybodaeth am yr atebolrwydd a'r cyfrifoldeb am ansawdd data fel bod pawb sy'n gysylltiedig yn deall y trefniadau. Bydd angen i'r Bwrdd fonitro ei drefniadau a'u hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn effeithiol.

**19.** Mae uwch reolwyr yn dangos ymrwymiad i ansawdd data ac maent wedi parhau i neilltuo adnoddau i'r rhaglen waith ansawdd data. Mae'r rheolwyr hefyd yn rhoi gwelliannau ar waith yn effeithiol mewn ymateb i adroddiadau annibynnol ar ansawdd data.

**20.** Yn 2009, roedd y Grŵp Ansawdd Data a'r Grŵp Datblygu Gwybodaeth ar yr un lefel yn y fframwaith llywodraethu. Er hynny, israddiwyd y Grŵp Ansawdd Data oherwydd diffyg ymgysylltiad gan rai aelodau. Yn gynnar yn 2011, penderfynwyd gwneud y Grŵp Ansawdd Data yn is-grŵp o'r Grŵp Datblygu Gwybodaeth oherwydd diffyg diddordeb gan glinigwyr a diffyg cefnogaeth gan y gwasanaeth.

## Mae swyddogaethau a chyfrifoldebau priodol wedi'u sefydlu o ran ansawdd data

**21.** Mae swyddogaethau a chyfrifoldebau wedi'u sefydlu o ran ansawdd data. Mae'r Pennaeth Gwybodaeth yn gyfrifol yn ffurfiol fel y 'Swyddog Ansawdd Data' corfforaethol. Diben y swyddogaeth hon yw cynnal a gwella ansawdd data ar lefel weithredol ledled y Bwrdd Iechyd. Mae rheolwyr adrannol, mewn adrannau corfforaethol a chlinigol, yn gyfrifol am ansawdd eu data eu hunain.

**22.** Mae swydd ddisgrifiadau'n cynnwys gofynion priodol ynglŷn ag ansawdd data ar gyfer pob aelod o staff sy'n gweithio gyda chofnodion iechyd. Dangosodd yr aelodau staff a gyfwelwyd mewn ysbytai acíwt ymrwymiad cyffredinol i wella ansawdd data, ac roeddent yn llwyr ddeall eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau. Fodd bynnag, mae'n llai eglur pa un a yw'r un ffurfioldeb o ran swyddogaethau a chyfrifoldebau yn bodoli ac yn effeithiol ar gyfer gwybodaeth a ddefnyddir gan y Bwrdd Iechyd ond y mae sefydliadau eraill yn gyfrifol amdani, megis sefydliadau ym meysydd gofal cymunedol a gofal sylfaenol.

**23.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn y broses o gyflwyno Stiwardiaid Llywodraethu Gwybodaeth (a dreialwyd ym maes Cofnodion Iechyd). Mae'r Stiwardiaid yn gyfrifol am gynnal archwiliadau, sicrhau bod staff yn gweithredu prosesau'n gywir a gwella'r trefniadau llywodraethu gwybodaeth yn eu hadrannau. Bydd hyn yn cynnwys gofyniad i gynnal safonau ansawdd data.
Bydd yr ymarfer hwn yn un cadarnhaol os caiff ei gynnal yn effeithiol ac os yw'r stiwardiaid yn adrodd am gynnydd yn effeithiol i'r pwyllgor priodol.

# Mae'r rhaglenni a'r prosesau ansawdd data yn briodol, ond gallai'r Bwrdd Iechyd gryfhau'r rhain ymhellach er mwyn sicrhau bod trefniadau ansawdd data da yn cael eu cynnal a'u hymsefydlu

## Mae'r polisi ansawdd data yn nodi gofynion allweddol ond nid yw ei gwmpas yn cynnwys gwybodaeth am ofal sylfaenol, y mae'r Bwrdd Iechyd yn dibynnu arni'n gynyddol

**24.** Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth wedi cymeradwyo'r Polisi Rheoli Ansawdd Data. Y Pennaeth Gwybodaeth sy'n gyfrifol am hyn. Mae'r polisi'n ymdrin â'r rhan fwyaf o'r themâu allweddol ar gyfer rheoli a gwella ansawdd data, gan gynnwys:

- cwmpas a nodau'r polisi;
- cyfrifoldebau (swyddogaethau a phwyllgorau unigol);
- hyfforddiant;
- trefniadau adolygu/monitro'r polisi;
- prosesau dilysu data; ac
- ymsefydlu elfennau o ansawdd data ar draws gwasanaethau gwybodaeth.

**25.** Er bod y Polisi Rheoli Ansawdd Data yn berthnasol i bawb sy'n cofnodi gwybodaeth am gleifion ar systemau gofal eilaidd neu gymunedol, nid yw'n cynnwys ansawdd data gofal sylfaenol. Mae gan y Bwrdd Iechyd gyfrifoldeb cyffredinol am iechyd ei boblogaeth leol, ac felly'r gwasanaethau a ddarperir yn y gymuned ac mewn gofal sylfaenol. Wrth i fodelau iechyd foderneiddio o dan fframwaith 'Gosod y Cyfeiriad', ceir dibyniaeth gynyddol ar wybodaeth gydgysylltiedig am berfformiad o ran canlyniadau a gweithgarwch. Felly, mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod gwybodaeth sylfaenol a chymunedol yr un mor gadarn â data acíwt.

## Mae hyfforddiant, addysg ac ymwybyddiaeth ynglŷn ag ansawdd data yn bodloni anghenion sylfaenol y Bwrdd Iechyd, ond mae angen i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu'n gyson ledled y sefydliad

**26.** Mae gan y Bwrdd Iechyd ystod o wahanol ddulliau o hyfforddi a chynorthwyo staff er mwyn helpu i wella ansawdd data. Mae'r dulliau hyn yn amrywio o ran helaethder a chwmpas yn seiliedig ar anghenion staff, er bod y prif bwyslais ar y wybodaeth acíwt.

**27.** Mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu hyfforddiant i'r staff er mwyn eu helpu i ymgymryd â phrosesau a gweithdrefnau gweithredol gan ddefnyddio'r System Gweinyddu Cleifion newydd, sef Myrddin. Mae'r Bwrdd Iechyd yn disgwyl i'r staff barhau i ddilyn hyfforddiant diweddaru sgiliau wedi hynny yn ôl yr angen. Mae llawlyfrau penodol ynglŷn â Myrddin yn ategu'r hyfforddiant a ddarperir, ac mae'r rhain yn nodi'r prosesau allweddol a sut i ddefnyddio'r system.

**28.** Mae hyfforddiant cyffredinol ar lywodraethu gwybodaeth ar gael ar-lein, sy'n ymdrin â materion ansawdd data. Mae'n ofynnol bod y staff yn cwblhau'r hyfforddiant hwn bob blwyddyn fel rhan o hyfforddiant gorfodol. Nid yw'r broses sefydlu gyffredinol ar gyfer staff yn cynnwys cyngor ar ansawdd data. Gan fod ansawdd data yn bwysig i'r busnes, fe ddylai fod yn rhan o'r broses sefydlu ar gyfer staff allweddol, fel eu bod yn ymwybodol o'i bwysigrwydd ac yn dilyn safonau ansawdd data derbyniol ym mhob agwedd ar eu gwaith pob dydd.

**29.** Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn cynnal cyrsiau hyfforddi arbenigol ar godio clinigol ar gyfer staff y Bwrdd Iechyd ac yn darparu hyfforddiant diweddaru sgiliau ar godio clinigol bob tair blynedd. Mae gweithdai ar gyfer staff clinigol arbenigol yn darparu hyfforddiant penodol ychwanegol ar sail anghenion. Os gwneir unrhyw newidiadau o fewn y GIG, neu os cyflwynir safonau data newydd, mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal clinigau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r staff. Caiff staff codio clinigol wneud cais am y cymhwyster codio clinigol cenedlaethol hefyd.

**30.** Mae staff codio clinigol yn dweud y gellid gwneud mwy i amlygu'r problemau sy'n wynebu codwyr pan eu bod yn derbyn data gwael, ac y dylid gosod mwy o gyfrifoldeb ar staff sy'n cofnodi data. Mae angen i'r Bwrdd Iechyd atgyfnerthu ymagwedd gorfforaethol at ansawdd data, lle mae'r staff yn cyflawni prosesau'n gywir y tro cyntaf.

**31.** Ceir trefniadau effeithiol i sicrhau ansawdd y data a gyflwynir i Lywodraeth Cymru. Mae'r tîm gwybodeg yn defnyddio dull adrodd Dilysu wrth y Ffynhonnell i wirio a phrofi data cyn ei gyflwyno i lywodraeth ganolog. Yn ogystal, mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio adroddiadau misol electronig CHKS i gefnogi prosesau dadansoddi data.
Mae hyn yn helpu i nodi anghysondebau a blaenoriaethu'r meysydd allweddol lle y gallai fod angen rhoi sylw i ansawdd data.

**32.** Mae dulliau mewnol eraill o ddilysu, cadarnhau a rhoi adborth a sicrwydd sy'n helpu'r Bwrdd Iechyd i reoli ansawdd data yn cynnwys:

- Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru sy'n cefnogi'r broses o ddilysu, er enghraifft, rhifau'r GIG ac enwau'r Byrddau Iechyd.
- offeryn Adrodd a Gwerthuso Perfformiad Gwent (GRaPE) sy'n defnyddio data, yn bennaf o'r storfa ddata, i ddadansoddi a dilysu data gofal eilaidd yn unol ag ystod o baramedrau.
- archwiliadau clinigol o gywirdeb a dibynadwyedd data clinigol. Gwneir hyn gan yr Adran Codio Clinigol.
- archwiliad codio clinigol yn unol â safonau cenedlaethol. Gwneir hyn gan yr Adran Codio Clinigol.
- mae archwiliadau i ddilysu a chadarnhau gwybodaeth am ofal cleifion a dderbyniwyd yn sicrhau bod y cofnodion papur yn cynnwys yr un data â'r cofnodion electronig ar system Myrddin a'r Weithfan Glinigol. Mae'r Adran Llywodraethu Gwybodaeth yn ymgymryd â'r broses hon.
- ansawdd a safonau nodiadau achos – mae hyn yn gwirio materion megis strwythur, maint, olrhain, adrodd am awdurdodiad a threfn y ffeil bapur.

## Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymateb yn briodol i archwiliadau ac adolygiadau mewnol ar ansawdd data

**33.** Mae gan y Bwrdd Iechyd raglen archwilio bellgyrhaeddol wedi'i sefydlu ar gyfer ansawdd data. Cynhaliwyd adolygiad 'Monitro Ansawdd Data a Pherfformiad' gan Deloitte (fel rhan o archwiliad mewnol), a derbyniodd y Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth yr adroddiad hwn ym mis Gorffennaf 2011. Rhoddwyd sgôr 'Cyfyngedig' i'r Bwrdd Iechyd. Roedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar wybodaeth allweddol am berfformiad a ddefnyddir gan y Bwrdd Iechyd, ond roedd hefyd yn ymdrin â meysydd trawsbynciol llywodraethu, rheoli a phrosesau. O ganlyniad i'r adolygiad Archwiliad Mewnol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu cynllun sy'n ymateb i'r argymhellion, ac mae'n adrodd am gynnydd i'r is-bwyllgor llywodraethu gwybodaeth perthnasol.

**34.** Mae archwilwyr mewnol y Bwrdd Iechyd yn bwriadu cynnal dau archwiliad arall ynglŷn â chywirdeb a gweithdrefnau ansawdd data. Mae'r Bwrdd Iechyd o'r farn y bydd cyflwyno'r archwiliadau hyn yn ei alluogi i gyflawni argymhellion yr adroddiad Archwiliad Mewnol a rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Llywodraethu Gwybodaeth ynglŷn ag ansawdd y data a'r prosesau sy'n sail iddo.

**35.** Mae'r archwilwyr mewnol yn bwriadu cynnal adolygiad arall o Reoli Perfformiad ac Ansawdd Data. Bydd yr Archwiliad Mewnol yn canolbwyntio ar amseroldeb y data perfformiad a ddefnyddir gan y Bwrdd i lywio'r broses gwneud penderfyniadau, yn ogystal â chynnal asesiad risg o berfformiad ansawdd data.

# Mae ein dadansoddiad o ddata yn amlygu safon uchel o ansawdd data, sy'n dangos bod trefniadau'r Bwrdd Iechyd yn effeithiol at ei gilydd

**36.** Fel rhan o'n dull archwilio, rydym wedi ystyried a chanolbwyntio ein hasesiad o berfformiad ansawdd data lle y gellir ei gymharu'n genedlaethol, a lle y gallem gysylltu'r canfyddiadau ag effeithiolrwydd prosesau gweithredol, a meysydd risg clinigol neu fusnes canlyniadol. Mae hyn yn cynnwys adolygiad o'r setiau data dilysu data cenedlaethol a dadansoddiad o ddata demograffig electronig o 8.5 miliwn o gofnodion gweinyddu cleifion a 5.2 miliwn o gofnodion gweinyddu radioleg.

**37.** Fodd bynnag, mae ein dadansoddiad yn gul o ran cwmpas yng nghyd-destun y nifer fawr o setiau data clinigol a busnes a gedwir gan y Bwrdd Iechyd. Felly, dylid ystyried y dadansoddiad fel dangosydd neu brocsi ar gyfer effeithiolrwydd cyffredinol y trefniadau ansawdd data yn y Bwrdd Iechyd.

## Ar y cyfan, mae'r Bwrdd Iechyd yn cyrraedd targedau dilysrwydd data ar gyfer setiau data allweddol


**38.** Mae Byrddau Iechyd ledled Cymru yn cyflwyno data i Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru er mwyn iddo gynnal archwiliadau dilysrwydd. Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn hysbysu'r Byrddau Iechyd am y canlyniadau yn rheolaidd; fel arfer bob mis neu bob deufis.

39. Rydym wedi adolygu'r pedwar adroddiad dilysrwydd data yn ymwneud â'r cyfnod 1 Ebrill i 30 Tachwedd 2011. Mae'r adroddiadau hyn yn ymdrin â gofal cleifion a dderbyniwyd, atgyfeiriadau cleifion allanol, gweithgarwch cleifion allanol a damweiniau ac achosion brys. Mae adroddiadau Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn dangos canran yr eitemau data sydd wedi bodloni'r safonau cenedlaethol. Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn Ffigurau 2 i 5 yn rhoi crynodeb o adroddiadau Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru ac yn dangos canran y meysydd data sy'n bodloni'r targed cenedlaethol ar gyfer y dangosydd hwnnw.

40. Yn gyffredinol, mae'r ffigurau'n dangos bod y Bwrdd Iechyd yn bodloni'r rhan fwyaf o'r safonau dilysrwydd a bod ei berfformiad yn gyson â chyfartaledd Cymru neu'n uwch na hynny. Er enghraifft, mae Ffigur 2 yn dangos bod y Bwrdd Iechyd yn cyrraedd y targedau dilysrwydd cenedlaethol ar gyfer 97 y cant o'r eitemau data a archwiliwyd o fewn y set ddata ar gyfer gofal cleifion a dderbyniwyd. Mae Ffigur 5 yn dangos bod y Bwrdd Iechyd yn bodloni'r rhan fwyaf o safonau dilysrwydd y set ddata ar gyfer achosion brys a'i fod yn cymharu'n ffafriol â Byrddau Iechyd eraill yng Nghymru. Fodd bynnag, er bod perfformiad y Bwrdd Iechyd yn rhagori ar gyfartaledd Cymru, mae lle i wella ymhellach.


**Ffigur 2**

**Gofal cleifion a dderbyniwyd – dilysrwydd y set ddata**




**Ffigur 3**

## Atgyfeirio cleifion allanol – dilysrwydd y set ddata





**Ffigur 4**

## Gweithgarwch cleifion allanol – dilysrwydd y set ddata



**Ffigur 5**

**Adrannau Brys – dilysrwydd y set ddata**




## Mae ein dadansoddiad o ddata demograffig ar y System Gweinyddu Cleifion a'r System Gwybodaeth Radioleg yn dangos bod rheolaethau cymharol effeithiol wedi'u sefydlu, ond mae cofnodion heb Rif GIG yn achosi risg i'r Bwrdd

**41.** Un o sylfeini allweddol data o ansawdd da yn y GIG yw gwybodaeth ddemograffig am gleifion, er enghraifft enw, cyfeiriad a dyddiad geni. Yn aml, defnyddir systemau ar wahân ar gyfer gwybodaeth am gleifion ar draws gwahanol ysbytai ac adrannau megis Radioleg. Mae hyn yn golygu y gall claf sydd wedi derbyn gofal mewn nifer o wahanol leoliadau gael sawl cofnod a dynodwr. Mewn sefyllfa o'r fath, mae'n annhebygol y bydd y Bwrdd Iechyd yn cadw'r holl wybodaeth glinigol am y claf hwnnw mewn un man. Mae hyn yn creu risgiau posibl o ran diogelwch clinigol ac yn ei gwneud hi'n fwy anodd dod o hyd i'r cofnodion cywir ar gyfer claf penodol.

**42.** Yn ogystal ag ystyried y trefniadau ar gyfer cyflawni ansawdd data fel y trafodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn, cynhaliwyd profion data demograffig gennym hefyd. Cynlluniwyd ein dull o brofi i ategu ein hasesiad o drefniadau ansawdd data'r Bwrdd, trwy edrych ar ddangosydd data o ansawdd da. Gwnaethom ddadansoddi'r data demograffig craidd a gedwir am gleifion ar y System Gweinyddu Cleifion a'r System Gwybodaeth Radioleg i asesu nifer y cofnodion dyblyg, neu achosion lle yr oedd dynodwyr claf ar goll.

**43.** Dyma ganfyddiadau allweddol y gwaith hwn:

- Mae'r data demograffig am gleifion a gedwir ar y Systemau Gweinyddu Cleifion yn cynnwys cyfanswm o 5,019 (0.6 y cant) o rifau GIG dyblyg. Mae hyn yn dangos bod dulliau derbyniol o lanhau ar waith a fydd yn helpu i leihau cymaint â phosibl ar gamgymeriadau, risgiau ac aneffeithlonrwydd. Fodd bynnag, yn ddelfrydol, ni ddylai fod unrhyw rifau dyblyg.
- Mae 90,069 (11 y cant) o gleifion sydd wedi'u cofrestru ar y System Gweinyddu Cleifion nad oes ganddynt rif GIG.
  Ar ôl ystyried materion a etifeddwyd a chofnodion cleifion tramor, nifer cyfyngedig yn unig o gleifion newydd heb rifau GIG ddylai fod yn y system. Mae'r perfformiad hwn yn awgrymu bod risg glinigol bosibl o ran adnabod y cofnod claf cywir ar gyfer y cleifion hynny nad oes ganddynt rif GIG. Gallai hyn arwain at gost ariannol hefyd oherwydd gall y Bwrdd Iechyd godi tâl ar Fyrddau Iechyd eraill ac Ymddiriedolaethau yn Lloegr am wasanaethau a ddarparwyd i'w cleifion hwy dim ond pan fo rhif GIG ar gael i allu adnabod y cleifion hynny.
- Dim ond pedwar cofnod dyblyg (0.0005 y cant) oedd yn y data demograffig am gleifion a gedwir ar bob System Gwybodaeth Radioleg. Yr hyn sy'n achosi mwy o bryder yw nifer y cleifion heb rifau GIG sydd ar y system, sef 5.5 y cant.
  Gallai hyn fod oherwydd ceisiadau diagnostig gan ofal sylfaenol neu gymunedol, ond fe allai ei gwneud hi'n fwy anodd olrhain a chysylltu'r gweithgarwch diagnostig radioleg llawn ar gyfer rhai cleifion i'w cofnod ar y System Gweinyddu Cleifion.

**44.** Mae'r canfyddiadau uchod yn cyd-fynd â'n hadolygiad o'r prosesau ansawdd data sydd wedi'u sefydlu, gan gynnwys gwaith diweddar a pharhaus y Bwrdd ar wybodeg a thechnoleg a rheoli gwybodaeth. Mae gwaith y Bwrdd wedi gwella data allweddol wrth baratoi ar gyfer rhoi'r system Myrddin ar waith. Er nad yw ein dadansoddiad yn awgrymu bod risg sylweddol i'r Bwrdd, fe allai'r ffaith nad oes gan rai cleifion rif GIG arwain at risgiau clinigol ac aneffeithlonrwydd busnes, fel y crybwyllwyd uchod. Dylai'r Bwrdd Iechyd gynnwys meysydd i'w gwella mewn prif gynlluniau mynegai cleifion a phrosesau glanhau presennol. Rhoddir mwy o fanylion am ganlyniadau ein profion data yn Atodiad 1.

# Atodiad 1

## Canlyniadau'r dadansoddiad o ddata demograffig cleifion

Fel rhan o'r gwaith maes ar ansawdd data, cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru ddadansoddiad o ddata demograffig cleifion ar y System Gweinyddu Cleifion a'r System Gwybodaeth Radioleg. Mae'r atodiad hwn yn rhoi crynodeb o'n canfyddiadau.

Mae'r tabl isod yn cyflwyno'r ystadegau perthnasol allweddol o'n dadansoddiad o gofnodion. Rydym hefyd wedi cynnwys cyfres o siartiau, sy'n dangos gwybodaeth am ansawdd data yn y Bwrdd Iechyd.

| Dangosydd | Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan | Cymru |
|---|---|---|
| Cyfanswm nifer y cofnodion cleifion electronig (System Gweinyddu Cleifion) | 810,828 | 8.5 miliwn (cyfanswm) |
| Cyfanswm nifer y cofnodion ar y System Gweinyddu Cleifion heb rif GIG wedi'i gofnodi | 90,069 (11)% | 1,150,090 (cyfanswm)<br>16% (cyfartaledd) |
| Cyfanswm nifer y cofrestriadau dyblyg ar y System Gweinyddu Cleifion o fewn System Gweinyddu Cleifion Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan ei hun | 5,019 (0.6%) | 6.2% (cyfartaledd) |
| Cyfanswm nifer y cofnodion Radioleg | 809,331 | 5.2 miliwn (cyfanswm) |
| Cyfanswm nifer y cofnodion Radioleg heb rif GIG nac ysbyty wedi'i gofnodi | 44,790 (5.5%) | 443,570 (cyfanswm)<br>10% (cyfartaledd) |
| Cyfanswm nifer y cofrestriadau Radioleg dyblyg ym Mwrdd Iechyd Aneurin Bevan | 4 (0.00%) | 39,539 (cyfanswm)<br>0.73% (cyfartaledd) |
| Cofnodion ar y System Gweinyddu Cleifion sydd â mwy nag un cofnod Radioleg cyfatebol yn ôl Rhif GIG | 0 (2)<br>0 (3 neu fwy) | 5,821 (2)<br>237 (3 neu fwy)<br>Cyfartaledd |
| Cofnodion Radioleg sydd â mwy nag un cofnod cyfatebol ar y System Gweinyddu Cleifion | 2 (2)<br>0 (3 neu fwy) | 20,900 (2)<br>758 (3 neu fwy)<br>Cyfartaledd |

Mae gwybodaeth ddemograffig lân a reolir yn dda yn rhagofyniad ar gyfer lefel dda o ansawdd data yn gyffredinol. Mae ein dadansoddiad o'r data yn dangos bod y data demograffig a gedwir ar y System Gweinyddu Cleifion a'r System Gwybodaeth Radioleg yn y Bwrdd Iechyd yn cael ei reoli'n dda iawn ac yn gyson. Mae'r dangosyddion a werthuswyd gennym uchod ac yn y graffiau sy'n dilyn yn dangos bod proffil y Bwrdd Iechyd yn cymharu'n dda â phroffiliau Byrddau Iechyd eraill yng Nghymru.


Mae rhywfaint o le i lanhau data ymhellach trwy leihau nifer y cofnodion ar y systemau nad oes ganddynt rif GIG na dynodwr ysbyty. Ein prif bryder yn hyn o beth yw y gallai cofnodion heb rif GIG na rhif ysbyty fod yn fwy anodd eu cyfateb i gleifion, gan olygu y byddai gan glinigwyr hanes meddygol anghyflawn.

Mae gan y Bwrdd Iechyd y nifer leiaf o achosion yng Nghymru o rifau GIG dyblyg ar ei System Gweinyddu Cleifion ei hun. Fodd bynnag, cymhlethir hyn gan nifer y cofnodion a gedwir sydd heb rif GIG, sy'n dal i fod yn gymharol isel yn y Bwrdd Iechyd ar 90,069 neu oddeutu 11 y cant ar gyfer y System Gweinyddu Cleifion a 44,790 neu 5.5 y cant ar gyfer Radioleg.

Mae diffyg rhif GIG dilys yn ei gwneud hi'n fwy anodd olrhain cleifion ac fe all atal y Bwrdd Iechyd rhag adennill costau triniaeth ar gyfer cleifion sy'n ymweld.


Yn amlwg, mae rhywfaint o le i leihau'r niferoedd hyn ymhellach, ond mae'r ddau yn cymharu'n dda â chyfartaledd Cymru. Unwaith eto, mae'r system Prif Fynegai Cleifion Menter newydd yn defnyddio algorithmau soffistigedig ar gyfer cyfateb, a dylai hyn wneud cyfraniad sylweddol at wella'r sefyllfa hon ymhellach. Yn hanesyddol, gallai'r cofnodion ar y System Gweinyddu Cleifion sydd heb rif GIG fod wedi digwydd ar unrhyw adeg yn y gorffennol gan fod sawl esboniad posibl dros hyn, gan gynnwys cyfuno systemau ysbytai yn flaenorol.

## Siart 1 – System Gweinyddu Cleifion: Cleifion â sawl gwahanol ddynodwr





Mae Siart 1 yn dangos y cofrestriadau dyblyg sydd â gwahanol ddynodwyr o fewn pob System Gweinyddu Cleifion unigol yng Nghymru. Mae hyn yn golygu bod gan gleifion fwy nag un cofnod electronig mewn un safle. Gallai hyn achosi risg glinigol os oes gan y claf nodiadau achos ysgrifenedig dyblyg hefyd. Rydym wedi dadansoddi'r data hwn ar lefel system/safle, ac felly dyna pam y ceir 12 bar yn y graff uchod. Mae Byrddau Iechyd eraill yng Nghymru wedi'u cynnwys yn ddienw. Mae'n ymddangos bod tri grŵp gwahanol yng Nghymru: y rhai hynny sydd â llai na 2 y cant o gofrestriadau dyblyg, y rhai hynny sydd â llai na 10 y cant, a dau sydd â niferoedd sylweddol uwch ar oddeutu 20 y cant.

**Siart 2 – System Gweinyddu Cleifion: Cleifion sydd heb rifau GIG wedi'u cofnodi**





Mae Siart 2 yn dangos nifer y cofnodion sydd heb rif GIG. Er bod modd adnabod cleifion yn ôl eu manylion personol, neu ddefnyddio rhifau ysbyty sydd eisoes yn bodoli, mae'r dulliau hyn yn llai dibynadwy na defnyddio rhifau GIG. Yn ogystal, gall diffyg rhif GIG gael effaith ariannol gan na fydd Byrddau Iechyd Lleol yn gallu adennill costau triniaeth sy'n gysylltiedig â chleifion o Fyrddau Iechyd Lleol eraill yng Nghymru neu weddill y DU heb ddyfynnu'r rhif GIG. Mae nifer y cofnodion yn y Bwrdd Iechyd sydd heb rif GIG yn tueddu tuag at ben isaf yr amrediad yng Nghymru. Mae Siart 2a isod yn dangos yr un data yn ôl Bwrdd Iechyd Lleol.

**Siart 2a – System Gweinyddu Cleifion: Cleifion sydd heb rifau GIG wedi'u cofnodi yn ôl BILl**




**Siart 3 – Radioleg: Cleifion â sawl gwahanol ddynodwr**




Mae Siart 3 yn dangos nifer y cofrestriadau dyblyg sydd â gwahanol ddynodwyr ym mhob system radioleg unigol yng Nghymru. Mae hyn yn golygu bod gan gleifion fwy nag un cofnod electronig mewn un safle. Gallai hyn achosi risg glinigol ac arwain at gofnod diagnostig anghyflawn os cofnodir canlyniadau ar un o gofnodion electronig y claf yn unig. Mae Byrddau Iechyd eraill wedi'u cynnwys yn ddienw, ac mae'r siart yn dangos bod gan y Bwrdd Iechyd bedwar cofnod o'r fath yn unig.


## Siart 4 – Radioleg: Cleifion sydd heb ddynodwyr wedi'u cofnodi




Mae'r siart hwn yn cymharu cofnodion radioleg sydd heb ddynodwr o gwbl (rhif GIG neu rif ysbyty) ym mhob system radioleg a ddefnyddir yng Nghymru. Mae'r cofnodion hyn yn anodd eu cydweddu â chofnod cyfatebol ar System Gweinyddu Cleifion.

Mae hyn yn golygu y gallai claf unigol fod ag un neu fwy o gofnodion radioleg na all staff eu cydweddu'n rhwydd â gweddill ei gofnodion meddygol. Gallai hyn gyflwyno risg glinigol oherwydd mae'n bosibl mai dim ond rhan o gofnod electronig llawn claf a ddangosir wrth chwilio am wybodaeth trwy'r System Gweinyddu Cleifion. O ran effeithlonrwydd, gallai hyn olygu bod cleifion yn cael mwy o ymchwiliadau radioleg nag sydd eu hangen. Mae Byrddau Iechyd Lleol eraill yng Nghymru wedi'u cynnwys yn ddienw.

**Siart 5 – System Gweinyddu Cleifion a Radioleg: Cleifion â dau gofnod radioleg neu fwy**




Mae'r siart hwn yn cymharu nifer yr achosion lle y mae gan glaf o leiaf un cofnod ar y System Gweinyddu Cleifion a dau neu fwy o gofnodion cysylltiedig ar y system radioleg. Yn yr achos hwn, rydym wedi ystyried yr holl Systemau Gweinyddu Cleifion a'r holl Systemau Radioleg ym mhob Bwrdd Iechyd gyda'i gilydd. Nid oes gan y Bwrdd Iechyd unrhyw gofnodion o'r math hwn.

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU


| | |
|---|---|
| Wales Audit Office | Swyddfa Archwilio Cymru |
| 24 Cathedral Road | 24 Heol y Gadeirlan |
| Cardiff CF11 9LJ | Caerdydd CF11 9LJ |
| Tel: 029 2032 0500 | Ffôn: 029 2032 0500 |
| Fax: 029 2032 0600 | Ffacs: 029 2032 0600 |
| Textphone: 029 2032 0660 | Ffôn Testun: 029 2032 0660 |
| E-mail: info@wao.gov.uk | E-bost: info@wao.gov.uk |
| Website: www.wao.gov.uk | Gwefan: www.wao.gov.uk |